## Duw'r Tlawd

Cyngor buddiol oedd cyngor John Calfin i'r Eglwys Brotestannaidd yn ninas Genefa'r unfed ganrif ar bymtheg. 'Rhowch,' meddai wrth yr aelodau, 'un rhan o bedair i'r newynog, rhan arall i'r tlawd, rhan arall i'r Weinidogaeth a rhan arall i gynhaliaeth yr eglwys leol'. Dysgodd Diwinyddiaeth Rhyddhad yr Eglwys ni i gofio fod sefyllfa, cyflwr ac anghenion tlodion ein byd yn dylanwadu ar ein dealltwriaeth o Dduw. Duw'r Tlawd yw ein Duw ni, sy'n clywed cri'r dirmygedig ac sydd yn eu rhyddhau o'u trafferthion. Profiad yr ecsodus yw man cychwyn ein dealltwriaeth o'r ddiwinyddiaeth hon.

Cydnabyddwn nad problem Cymru a Chymry sydd yn Ne Amerig. Cawsom ni etifeddiaeth ffyniannus bellach er dyfodiad y Wladwriaeth Les ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Ein problem ni bellach yw anghrediniaeth, diffyg ffydd, anffyddlondeb a difaterwch. Eilunaddoliad a seciwlariaeth sydd yn ein llethu, nid tlodi'r oes o'r blaen.

Y mae Duw'r Tlawd yn ei ddatguddio ei hunan yn Iesu Grist. Ei berson hael a'i ddysgeidiaeth sy'n parchu pob enaid byw. Y mae Crist o blaid y tlodion yn ei bregethau. Mae'n eu galw hwy yn bobl y 'gwynfydau'. 'Gwyn eu byd y tlodion yn yr ysbryd: canys eiddynt yw teyrnas nefoedd.' Gwelwn Iesu yn ei Groes fel cyflwyniad o broffwydoliaeth y Gwas Dioddefus o Lyfr Eseia, a daeth pobl Dduw i weld delwedd arall o'r anfeidrol, sef Duw'r Bywyd diddiflanedig sy'n brwydro yn erbyn pob math o ddiraddio a bychanu a thrais a dinistr.

Yr Eglwys a oedd yn bwysig i'r diwinydd tanbaid Leonardo Boff oedd eglwys sy'n efengylaidd, yn syml ei hadeiladau, yn ymwrthod ag ysbryd tra arglwyddiaethol, yn tosturio, yn oddefgar, wedi ei seilio ar y Deyrnas, yn rhyddhau'r caethion, yn gweinidogaethu i'r amddifad a'r di-gefn. Eglwys y Merthyron a'r methedig, eglwys pobl llwm eu byd ond llawn o orfoledd. Mewn geiriau eraill, eglwys y bobl gyffredin, gwerin gwlad.

***D. Ben Rees***